



DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I ADDYSGWYR

Mae Uned newydd wedi cael ei sefydlu yn yr Ysgol Addysg i ddarparu datblygiad proffesiynol i staff academiaidd ym mhob cam o'u gyrfaoedd. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae PCB wedi bod yn cynnal cynllun 'addysgu mewn Addysg Uwch' hynod lwyddiannus ar gyfer staff sydd newydd ddechrau addysgu, ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio fel model ar gyfer rhaglenni cyffelyb drwy Gymru gyfan. Fodd bynnag, ychydig ddarpariaeth fu ar gael i helpu staff mwy profiadol weld ffyrdd y gallant addysgu'n fwy effeithiol. Nod yr Uned Datblygu Academiaidd (UDA) newydd yw llenwi'r bwlch hwn.

Meddai Cyfarwyddwr yr UDA, Dr Sue Assinder, "Mae'r Brifysgol wedi sefydlu enw da rhagorol am addysgu o'r safon uchaf ond, yn anochel, mae yna gost o ran amser staff academiaidd. Mae yna lawer o ffyrdd y gall staff wneud eu haddysgu'n fwy effeithlon a chryfhau'r broses ddysgu ymysg myfyrwyr yr un pryd. Fodd bynnag, yn aml maent yn gyndyn i arbrofi gyda dulliau addysgu newydd oherwydd eu bod yn credu y bydd yn llyncu amser y dylent fod yn ei roi i rannau eraill o'u swydd, ymchwil yn arbennig. Yn yr UDA rydym eisiau dangos i staff nad oes raid i addasu eu dulliau addysgu fynd â gormodedd o amser ychwanegol, a'i bod yn werth yr ymdrech trwy sicrhau addysgu mwy effeithlon a chryfhau'r profiad dysgu i fyfyrwyr. Gyda'r cyfryngau a'r dulliau cywir, mae'n bosibl cael 'mwy o ddysgu am lai o addysgu' a thrwy hynny ryddhau amser ar gyfer gweithgareddau eraill."



Syfrdanwyd plant a'u rhieni gan **Sioe Gemeg** a gynhaliwyd yn neuadd arddangos y Brifysgol yn yr Eisteddfod yn Abertawe fis Awst. Roedd y Sioe Gemeg yn nwylo Robyn Wheldon Williams (yma) a'i nitrogen hylifol, a'r cyfan yn dathlu lansio fersiwn cyntaf erioed Tabl Cyfnodol yr Elfennau gan Ysgol Cemeg y Brifysgol - un o raglen o weithgareddau llwyddiannus yn ystod yr wythnos.

Dros y misoedd i ddod bydd Sue, a'i chydweithiwr Romy Lawson (Cyfarwyddwr aAU), yn gweithio'n agos gydag Ysgolion a Cholegau i gynorthwyo'r Brifysgol yn ei nod o gynnal rhagoriaeth mewn addysgu a dysgu. Defnyddir amrywiaeth eang o weithgareddau i gyflawni hyn, yn cynnwys gweithdai, seminarau, projectau ymchwil a chysylltiadau â staff unigol. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys cynorthwyo gyda datblygu ac adolygu cyrsiau a

modiwlau, a rhoi cyngor ar strategaethau addysgu, dysgu ac asesu. Mae sefydlu'r Uned yn rhan o gynllun mwy i gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol staff PCB. Bydd cydymdrechion yr UDA a darparwyr eraill, megis Adnoddau Dynol, Gwasanaethau TG, a'r Adran Dysgu Gydol Oes, yn creu fframwaith cydlynol ar gyfer datblygiad staff a datblygiad addysgol drwy'r Brifysgol gyfan.

WYTH O GYMRODYR DYSGU NEWYDD YN CAEL EU GWOBROWYO YM MANGOR

Yn ystod y seremonïau graddio yr haf hwn cyflwynwyd Cymrodoriaethau Dysgu i wyth o ddarlithwyr. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Brifysgol ddyfarnu cymaint o Gymrodoriaethau Dysgu i'w staff ac roedd yn adlewyrchu cynnydd yn yr enwebiadau a dderbyniwyd. Mae Cymrodoriaethau Dysgu'n cydnabod cyfraniad nodedig mewn dysgu a chefnogi myfyrwyr. Caiff darlithwyr eu henwebu am Gymrodoriaeth Ddysgu gan eu cydweithwyr a'u myfyrwyr.

"Rydym yn falch, ac nid heb achos, o safon dysgu a gofalu am fyfyrwyr ym Mangor ac ers nifer o flynyddoedd bellach rydym wedi dyfarnu Cymrodoriaethau Dysgu er mwyn tynnu sylw at ddysgu a gofal bugeiliol rhagorol a'u gwobrowyo," eglurodd Dr Ioan ap Dewi, y Cofrestryydd Academaidd. "Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi arbenigedd a chyfraniad neilltuol yr unigolion yma ac mae hefyd wedi creu Academi o Gymrodyr Dysgu o fewn y Brifysgol fel fforwm i drafod a rhannu ymarfer da mewn dysgu mewn addysg uwch."

Roedd yr holl gyflwyniadau'n pwysleisio rhagoriaeth mewn dulliau dysgu traddodiadol ac arloesol a'r sylw manwl roedd yr unigolion hyn yn ei roi i anghenion eu myfyrwyr.



YR WYTH OEDD:

1. Dr Pam Macdonald, Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg (chwith), & Dr Carol Tully, Ysgol Ieithoedd Modern (dde), 2. Dr Nia Whiteley, Ysgol Gwyddorau Biolegol, 3. Dr Graham Clarke, Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, 4. Dr Bianca Ambrose Oji, Ysgol yr Amgylchedd a Gwyddorau Naturiol, 5. Dr Nichola Callow, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon Iechyd ac Ymarfer Corff, 6. Dr Enlli Môn Thomas, & 7. Dr Jesse Martin, Ysgol Seicoleg.

Newyddion o Seicoleg

Mae Adain Seicoleg Glinigol y British Psychological Society wedi gwahodd Yr Athro Bob Woods i draddodi Darlith Gwobr MB Shapiro yn eu Cynhadledd Flynyddol yn Llundain ym mis Rhagfyr.

Mae gwahoddiad i draddodi'r ddarlith hon yn tystio bod y siaradwr wedi dod i fri amlwg yn y proffesiwn ac wedi cael dylanwad sylweddol ar wybodaeth ac ymarfer seicoleg glinigol ym Mhrydain.

Nid yn unig mae hyn yn gydnabyddiaeth deilwng i'r Athro Woods yn bersonol, ond mae hefyd yn cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn PCB ac yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ym maes seicoleg glinigol pobl hŷn, a datblygiad seicoleg glinigol pobl hŷn trwy wledydd Prydain yn gyffredinol.

Mae'r sylw a roddwyd i'r Athro Woods, ac eraill yn y tîm, yn cadarnhau statws Bangor a Gogledd Orllewin Cymru fel arweinwyr ym maes Seicoleg Glinigol Pobl Hŷn ym Mhrydain. Yn ddiweddar, cafodd Linda Clare, aelod o'r grŵp ymchwil, hefyd ei dyrchafu'n Ddarllenydd.

Yn y cyfamser, mae Dr Judy Hutchings, o dîm Blynnyddoedd Anhygoel Cymru, wedi bod yn cynghori rhai yn y swyddi uchaf yn y tîr! Mae Dr Hutchings a'i thîm yn gweithio ar gynlluniau i wella anhwylder ymddygiad mewn plant. Gofynnwyd am ei barn gan wneuthurwyr polisi a gwahoddwyd Judy gan swyddfa'r Prif Weinidog i Chequers ddiwedd Awst i seminar ar eithrio cymdeithasol.

Ac yn olaf, ond yr un mor bwysig, mae Pennaeth Gweithredol yr Ysgol, Richard Hastings, wedi derbyn Cymrodoriaeth gan y British Psychological Society am ei waith ymchwil arloesol a chreadigol ym maes anabledau dysgu.

Cymrodyr er Anrhydedd Diweddaraf Bangor

Roedd un o delynorion a cherddorion amlycaf Cymru, Elinor Bennett, ymysg chwech o bobl a dderbyniodd Gymrodoriaethau er Anrhydedd yn ystod y seremonïau graddio eleni.

"Roedd yr holl Gymrodyr wrth eu bodd bod yr anrhydedd yma'n cael ei roi iddynt," meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones. "Ar ôl ystyriaeth ofalus rhoddir Cymrodoriaethau i'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad mawr yn eu priodfaes ac sydd â chysylltiad agos â'r Brifysgol, y rhanbarth neu Gymru," ychwanegodd.

Y Cymrodyr er Anrhydedd newydd yw:

Elinor Bennett

Telynores; am ei chyfraniad i Gerddoriaeth

Goronwy Cleaver

Rheolwr Gyfarwyddwr Kroll (Cayman) Ltd.; am ei gyfraniad i ddatblygiad Y Gyfraith ym Mangor

Yr Athro Syr Richard Friend FRS, Ffisegydd a chyn-fyfyriwr o Fangor; am ei gyfraniad i wyddoniaeth

Dr Raymond Garlick

bardd a chyn-fyfyriwr o Fangor; am ei gyfraniad i lenyddiaeth (derbyniwyd y gymrodoriaeth ar ei ran gan ei fab, Iestyn Garlick).

Yr Athro Russell Jackson


Cyfarwyddwr y Shakespeare Institute, Prifysgol Birmingham; am ei gyfraniad i astudiaethau llenyddiaeth a ffilm

John Walter Jones OBE

Cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg; am ei gyfraniad i'r iaith Gymraeg

Hywel Williams

hanesydd; am ei gyfraniad i hanes a newyddiaduraeth



Yn y cefn mae Cyflwynwyr y Cymrodyr, chwith-dde: Yr Athro Densil Morgan, Dr Wil Griffith, Dirprwy Is-Ganghellor, Meri Huws a'r Athro Martin Taylor a'r Cymrodyr er Anrhydedd: Elinor Bennett, Hywel Williams, John Walter Jones OBE a Syr Richard Friend FRS gyda'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones. Yma hefyd mae Professor Russell Jackson a Goronwy Cleaver.

BARDD Y GENEDL

Bydd dathlu dwbl mewn cynhadledd gan Ysgol y Gymraeg sydd i'w chynnal **17-18 Tachwedd**. Mewn cynhadledd sydd ar agor i'r cyhoedd, sef 'Mwy na Rhywbeth i'w Wneud? Barddoni Mewn Canrif Newydd', bydd Bardd Cenedlaethol Cymru, Yr Athro Emeritws Gwyn Thomas yn siarad, ynghyd â chyn-Fardd Cenedlaethol Cymru, Gwyneth Lewis. Trefnwyd y cyfan cyn penodi'r Athro Thomas i'r swydd er mwyn dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed.

"Wyddwn i ddim pan oeddwn i'n trefnu'r gynhadledd fod Yr Athro Gwyn Thomas am gael ei benodi'n Fardd Cenedlaethol!" meddai'r Athro Gerwyn Williams, Pennaeth Ysgol y Gymraeg. "Ond mae'r cwbl wedi disgyn i'w le yn daclus ac rwy'n siŵr y cawn ni gynhadledd werth chweil."

"Mae penodi Gwyn yn Fardd Cenedlaethol yn gydnabyddiaeth gyhoeddus o'r rhan arloesol a chwaraeodd mewn barddoniaeth yng Nghymru ers y 1960au. Ac wrth gwrs, bu hefyd yn gysylltiedig â Phrifysgol Bangor am y rhan fwyaf o'i yrfa broffesiynol," meddai.

Mae'r gynhadledd yn cael ei threfnu ar y cyd â'r Sefydliad Cymreig ar Faterion Cymdeithasol a Diwylliannol (WISCA) gyda chymorth yr Academi Gymreig.

Bydd Gwyneth Lewis yn siarad nos Wener, 17 Tachwedd a Dr Jason Walford Davies yn holi Gwyn Thomas ddydd Sadwrn, 18 Tachwedd pan fydd nifer o feirdd ac academyddion eraill yn siarad hefyd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â 01248 382133 neu wisca@bangor.ac.uk or visit wisca@bangor.ac.uk. http://www.bangor.ac.uk/wisca/siteenglish/conf_sem/conf_prog/poets.htm

Darlithoedd Cyhoeddus eraill a gynhelir:

'Hidden Depths' – the fan, an object of mystery, Helene Alexander FRSA, **6.00 Mercher 8 Tachwedd 2006** Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau

Bydd yr awdur a'r dramodydd, Philip Pullman yn trafod 'Strangeness and Charm' - the fundamental particles of narrative', yn y ddarlith a ohiriwyd, a gynhelir nawr am **6.00 nos Wener, 10 Tachwedd** ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau.

Bydd Toni Schiavone yn cyflwyno Darlith Goffa Syr Hugh Owen - 'Ymdeimlad o Le' am **6.00 nos Fercher, 15 Tachwedd 2006** ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau. Bydd offer cyfieithu ar gael ar gyfer y ddarlith Gymraeg.

GRYM Y WE!

Dyma stori i gynhesu'ch calon (a'ch ceg efallai!) gan Dr Dave Harris o Adnoddau Naturiol CAZS, sy'n dangos na ddylech byth fychanu grym y we i ledaenu pa bynnag newyddion da sydd gennych.

Mae Adnoddau Natuiol CAZS wedi bod yn defnyddio dull gweddol gyntefig o 'gychwyn hadau', lle mae hadau'n cael eu socian cyn eu plannu er mwyn gwella egino a chynaeafu wedi hynny. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei wneud yn Asia yn bennaf ar brif gnydau fel miled ond, mewn gwirionedd, gall weithio gydag unrhyw gnwd.

Mae ein stori'n symud i wres Sinaloa ym Mecsico. Yno, fe wnaeth entrepreneur fuddsoddi mewn tir, tai gwydr a hadau organig er mwyn dechrau tyfu chillis organig yn ei ardal. Fodd bynnag, roedd yn wynebu problemau mawr gan mai dim ond tua

4% o'i gnwd arbrofol oedd yn egino. Nid oedd yn gwybod ble i droi, ar ôl methu cael ateb i'w broblem yn lleol, pan ddigwyddodd weld erthygl gan Dr Dave Harris ar y we ar gychwyn hadau.

Cysylltodd â Dave i gael cyngor pellach ac, ar ôl dechrau defnyddio'r dull yma, mae'n dweud bod ei gnwd o chillis organig yn ffynnu gyda 95% o'r hadau'n egino yn awr o'i gymharu â 4% o'r blaen – gan sicrhau bod ei fuddsoddiad yn llwyddo yng nghefn gwlad Mecsico! (Mae wedi addo anfon rhai o'r chillis draw, ond nid ydym wedi clywed eto pa mor boeth ydynt!)

Fel y dywedodd Dave, "Dwi'n meddwl bod hon yn enghraifft wych o'r ffordd mae'r system i fod i weithio: ymchwil-canlyniadau-ymholiad ar wefan-cyngor-problem wedi ei datrys."



Gall preimio hadau fod yn ddefnyddiol mewn nifer o leoliadau ac ar gyfer llawer o wahanol gnydau. Yma, ym Mheshawar, Pacistan, mae preimio hadau'n golygu'r gwahaniaeth rhwng cael cnwd llwyddiannus o ffa mwng ar y dde a dim cnwd o gwbl!

Penodi Cyfarwyddwr i Bartneriaeth

Penodwyd Dr Hugh Aldridge yn Gyfarwyddwr ar y Bartneriaeth Ymchwil a Menter newydd a sefydlwyd gan Brifysgolion Aberystwyth a Bangor.

Cyn ei benodi roedd Dr Aldridge yn Gyfarwyddwr Diwydiant yn 'The Cambridge – MIT Institute' ym Mhrifysgol Rhydychen. Cyn hyn, bu'n Gyd-Gyfarwyddwr Swyddfa Cysylltiadau Corfforaethol Prifysgol Caergrawnt a chyn hynny, yn Rheolwr Cyswllt Prifysgol Strategol Byd-eang gyda Hewlett Packard.

Menter gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw **Partneriaeth Ymchwil a Menter PCA/PCB** a'i nod yw hybu gweithgarwch ymchwil a menter ym Mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor.

Mae gan y Bartneriaeth drefn reoli ymchwil ar y cyd, ac mae'n anelu ei fuddsoddiadau at feysydd academiaidd lle mae'r sefydliadau'n rhannu diddordebau ymchwil. Ar ben hynny, sefydlir Uned Cymorth Ymchwil a Menter ar y cyd i gynorthwyo academyddion drwy nodi blaenoriaethau am gyllid ymchwil, cynyddu'r cyllid i grantiau ymchwil a rheoli projectau mawr. Sefydlwyd pedair canolfan ymchwil ar y cyd, sef Canolfan Ymchwil i Ddalgylchoedd ac Arfordiroedd, y Ganolfan Gymreig dros Ymchwil Integredig yn yr Amgylchedd Gwledig, y 'Ganolfan Deunyddiau a Dyfeisiadau Swyddogaethol Uwch', a'r 'Sefydliad Astudiaethau Canoloesol a Modern Cynnar'.

GWYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROJECTAU CYFALAF

Y diweddaraf am yr Ystâd Breswyl Bydd Llys Tryfan yn parhau'n agored am y flwyddyn academiaidd hon. Mae'r contractau ar gyfer y gwaith wedi'u harwyddo. Bydd Cowlin Construction yn dechrau ar y safle cyn bo hir, gan sefydlu eu ffiniau a'u palisau ar y safle yn y lle cyntaf ar gyfer cam cyntaf y datblygiad tair blynedd.

Canolfan yr Amgylchedd, Cymru Mae Pochin, Contractwr y Brifysgol, yn symud ymlaen yn dda ar y safle gyda cladin derw lleol yn cael ei osod ar waliau allanol yr adeilad

Canolfan Datblygu Rheolaeth: Mae Operon, y contractwr ar gyfer y Ganolfan, wedi cychwyn gwaith ar y safle ac mae'r gwaith clirio y tu mewn i'r hen adeiladau'n mynd rhagddo. Mae cynlluniau pensaernïol a pheiranyddol a darluniau gweithio wedi'u datblygu'n dda ar gyfer y Ganolfan, sydd i'w orffen fis Awst 2007. Bydd y Ganolfan newydd yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y farchnad addysg ôl-raddedig yng ngogledd orllewin Cymru, gan gynnwys adnoddau hyfforddi a chynadleda.

Daeth y cyfnod ymgynghori ar gyfer **Strategaeth** newydd yr **Ystad** i ben ar 15 Medi. Derbyniwyd cyfanswm o 17 o ymatebion ysgrifenedig, 15 gan gymuned y Brifysgol a 2 gan sefydliadau allanol. O ganlyniad, gwnaed nifer o fân newidiadau i'r drafft gwreiddiol. Cymeradwywyd y ddogfen ddiwygiedig yn ffurfiol Cyngor mewn cyfarfod arbennig o gyngor y Brifysgol ar 25 Hydref.

Yn Fyrr

Penodiadau Newydd

Mae gan y Brifysgol Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol newydd. Mae Mrs Gill Hemus wedi dechrau yn y swydd yma ers 4 Medi 2006. Gynt, roedd Gill Hemus yn Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chorfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Canol Manceinion ac Ysbytai Plant Manceinion.

Mae Ms Kristen Gallagher wedi ymgymryd â'i swydd fel Pennaeth newydd Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn yr Adran Marchnata a Chyfathrebu Corfforaethol. Daw Kristen o swydd debyg yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain.

Penodwyd Dr Janet Pritchard yn Bennaeth y Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes a phenodwyd Yr Athro Ted Gardener yn Bennaeth y Coleg Busnes, Gwyddorau Cymdeithas a'r Gyfraith.

Llenwyd nifer o swyddi'n llwyddiannus fel rhan o gynlluniau ehangu'r Brifysgol, sy'n cynnwys dros 50 o swyddi academiaidd newydd a 27 Athro.

Parti Gardd



Bu **Gwyn Lloyd Jones** a'i wraig Eleanor, ym Mharti Gardd y Frenhines ym Mhalas Buckingham dros yr haf fel cynrychiolwyr y Brifysgol. Mae Gwyn wedi gweithio yn y Ganolfan BioGyfansoddi ers ei dechreuad, a chyn hynny gweithiodd i'r adrannau coedwigaeth a gwyddorau planhigion. Dechreuodd weithio fel technegydd ac mae'n wyddonydd nawr, ar ôl gallu ymgymryd â rhagor o hyfforddiant ac addysg yn ystod ei yrfa. Mae wedi gweithio ar nifer o ddatblygiadau diwydiannol diddorol, yn ogystal â chyfrannu at ddysgu ar nifer o gyrсияu dros y blynyddoedd. Mae'n ymwneud â dau broiect ymchwil o bwys ar hyn o bryd, un project Ewropeaidd i ddatblygu crudiau wedi eu gwneud o ddeunyddiau cynydu gwastraff a phlastig wedi'i ailgylchu ar gyfer ffermio cregyn gleision, ac un arall i ddatblygu triniaethau amddiffynnol a hindreulio mwy effeithiol ar gyfer coed.

CIPIO GWOBRAU AR YR YMGAIS GYNTAF



Cafodd myfyrwr gyfle i drafod ei Chynllun Busnes fel rhan o wasanaeth cefnogi mentora Cynlluniau Busnes Byddwch Fentrus

Mae dau broject yng Nghanolan Gyrfaedd a Chyfleoedd y Brifysgol wedi derbyn dwy wobwr broffesiynol genedlaethol. Yng Ngwobrau Rhagoriaeth yr Association of Graduate Careers Advisory Services, a gyflwynir bob dwy flynedd, dyfarnwyd yr ail wobwr i'r Rhaglen Entrepreneuriaidd i Fyfyrrwyr - Byddwch Fentrus, ac ail wobwr hefyd i'r cynllun Datblygu E-Gyflogadwyedd trwy Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Yn y Dosbarth Entrepreneuriaeth, rhoddwyd yr ail wobwr i'r Project Byddwch Fentrus, sef prif broject entrepreneuriaidd y Brifysgol sy'n derbyn cyllid o Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Rhoddwyd y cynllun E-Gyflogadwyedd yn ail drwy wledydd Prydain yn y Dosbarth Technoleg. Mae'r project hwn yn darparu adnoddau cyflogaeth a dysgu i fyfyrwyr drwy'r we. Yn y rhaglen fe geir dyddiadur ar-lein ar gyfer dysgu adfyfyriol, yn ogystal ag arweiniad ar yrfaedd a chyingor ar reoli.

“Mae AGCAS yn cynrychioli dros 180 o wasanaethau gyrfaedd Prifysgolion ac yn naturiol rydw i wrth fy modd gyda'n llwyddiant. Hwn oedd y tro cyntaf i ni gystadlu am unrhyw wobwr cenedlaethol ac mae dod mor uchel ar y cynnig cyntaf yn galonogol tu hwnt!” meddai Eluned Jones, Pennaeth y Ganolfan Gyrfaedd a Chyfleoedd.
“Mae'r ddau broject yma wedi cael canmoliaeth fawr yn barod yng Nghymru a rŵan maent yn dod i sylw ein cydweithwyr mewn rhannau eraill o wledydd Prydain,” ychwanegodd.

Cyhoeddir Newyddlen gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Prifysgol Cymru, Bangor. Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys at y Golygydd: Elinor Elis-Williams, yn yr Adran. E-bost: press@bangor.ac.uk

Prifysgol Cymru, Bangor. Cysylltwch â'r Golygydd am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl.

Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar www.bangor.ac.uk/news/cymraeg/

Pwerau Dyfarnu Graddau - Allem ni gael enw newydd?

Ar ôl bron i flwyddyn o archwilio ac asesu fe wnaeth aseswyr y QAA adael PCB yng Ngorffennaf 2006 ond nid yw cais y Brifysgol am Bwerau Dyfarnu Graddau yn hysbys eto. Ymwelodd yr aseswyr â'r Brifysgol 33 o weithiau yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, gan gynnal 63 o wahanol 'ymrwymadau', cyfweld 167 o staff a myfyrwyr ac arsylwi 34 o gyfarfodydd. Ni cheir unrhyw sylwadau ffurfiol ar y broses, ond mae adroddiad yr aseswyr yn mynd ymlaen trwy wahanol gamau at y Cyfrin Gyngor – a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Meddai'r Cofrestrydd, Dr David Roberts: “Hwn ydi'r archwiliad mwyaf cynhwysfawr a gafodd y Brifysgol erioed, a bu'r aseswyr yn drwyadl a manwl iawn yn eu gwaith. Rydym yn disgwyl yn eiddgar am y canlyniad oherwydd, yn ddi-os, bydd yn cael effaith ar ein statws a'n henw da fel Prifysgol.”

Er nad yw'r canlyniad yn hysbys eto, mae Cyngor y Brifysgol eisoes yn meddwl ymlaen. Ar 6 Hydref penderfynodd y Cyngor, pe baem yn cael Pwerau Dyfarnu Graddau, y dylem wedyn wneud cais am 'deitl Prifysgol' - proses ar wahân sydd ar gael i'r sefydliadau hynny sy'n cael Pwerau Dyfarnu Graddau – a hefyd ddechrau proses ymgynghori ynghylch enw newydd. Yr enw sy'n cael ei ffafrio ar hyn o bryd yw 'Prifysgol Bangor', ond cydnabyddir bod dewisiadau eraill.

Meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones: “Bydd gwneud cais am deitl Prifysgol yn diogelu ein statws fel Prifysgol – sy'n eithriadol bwysig o ystyried y newid sy'n digwydd i fframwaith Prifysgol ffederal Cymru.”

Bydd yr ymgynghori'n dechrau ym mis Tachwedd.